# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018

Amser: 09.30 - 12.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4598

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dr Jean White, Llywodraeth Cymru<br>Liz Davies, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Evans, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Clerc)<br>Zoe Kelland (Dirprwy Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Amy Clifton (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 16 - Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19 - llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch llythyr gan randdeiliad mewn perthynas ag ariannu Ambiwlans Awyr Cymru a'r Gwasanaeth Adfer a Throsglwyddo Meddygol Brys

3.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch Ambiwlans Awyr Cymru a'r Gwasanaeth Adalw Meddygol Brys.

### 3.2 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

3.2a Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - trafod y dystiolaeth a'r materion allweddol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod eitem 2 y cyfarfod.

5.2 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ei ymchwiliad i'r defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal cyn iddo baratoi ei adroddiad drafft.

## 6 Trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Ymosodiadau ar Weithwyr Argyfwng (Troseddau) - trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 7 Ymchwiliad i ofal sylfaenol - trafodaeth bwrdd crwn gyda thystion cyn dadl ar yr adroddiad

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad gyda rhanddeiliaid cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.